# Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

4 Ebrill 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Eisteddfod yr Urdd – llwyddiannau sirol -** Llongyfarchiadau cynnes i'n holl gystadleuwyr yn yr Eisteddfodau Sir dros y pythefnos diwethaf sy'n golygu bod criw mawr o Glantaf yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam ym mis Mehefin. Mae'r llwyddiannau hynny'n cynnwys: Côr Cerdd Dant; Ensemble Cerdd Dant; Côr Bechgyn Iau; Côr Bechgyn Hŷn; Llefaru Unawd Hŷn (Mari Fflur Thomas) ; Deuawd Bl 7-9 (Meg a Mali); Theatr Grŵp Iau yn ogystal â'r cerddorion unigol a grŵp, ein Cerddorfa Ysgol a pherfformiad Sioe Gerdd Shrec. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ein Cyngerdd Eisteddfod Ysgol ar 22 Mai i fwynhau'r doniau hyn unwaith eto, cyn iddynt droi tua Margam! Llongyfarchiadau gwresog i'r holl ddisgyblion a grwpiau eraill a enillodd fedalau Arian ac Efydd: *da iawn bawb a llongyfarchiadau cynnes!*

**Dathlu a Dysgu am Awtistiaeth -** Mae Ebrill yn fis o godi ymwybyddiaeth o Awtistiaeth ac fel ysgol byddwn yn parhau â'n haddysgu a'n dysgu am Awtistiaeth. Byddwn yn defnyddio gwefan Llywodraeth Cymru https://neurodivergencewales.org/en/ i'n cynorthwyo i gael gafael ar yr hyfforddiant diweddaraf ar gyfer staff a disgyblion. Byddwn yn cynnal myfyrdodau, dysgu am Awtistiaeth yn ein gwersi lles, parhau i hyfforddi staff a dathlu Diwrnod Cenedlaethol Awtistiaeth ar yr 2il o Ebrill drwy werthu losin lliwgar i godi arian i *'Gymdeithas Genedlaethol Awstistiaeth'*. Ddiwedd mis Mawrth cynhaliwyd y Fforwm cyntaf ar gyfer disgyblion ag Awtistiaeth (neu sydd ar y llwybr niwroddatblygiadol). Roedd yn gyfarfod gwerthfawr iawn ac rydym bellach wedi creu *Google Classroom* fel lle diogel i'r disgyblion hyn fynegi eu barn a chynnig syniadau o sut y gallwn eu cefnogi orau fel ysgol. Os ydych chi'n meddwl y byddai gan eich plentyn ddiddordeb mewn ymuno â'r Fforwm hwn, cysylltwch â'r Arweinydd Cynnydd perthnasol.

**Llwyddiant Chwaraeon –** Hoffwn hefyd nodi cyflawniadau eithriadol ein timau chwaraeon dros yr wythnosau diwethaf, lle mae cymaint o'n disgyblion wedi bod yn rhan o rowndiau terfynol cenedlaethol a sirol. Llongyfarchiadau i'r canlynol: tîm hoci bechgyn Bl7 Glantaf yn Bencampwyr Cymru (gyda'r 2il dîm yn enillwyr medalau arian), enillodd ein tîm pêl-droed merched dan 18 fedalau arian yng Nghwpan Cymru; Pencampwyr Hoci Sir Merched Bl 11; timau Rygbi Bechgyn Bl 7 a Bl 8 yn Bencampwyr Sir. Mae Glantaf hefyd wedi anfon timau i gystadlaethau Rygbi 7 bob ochr Parc Rosslyn a bydd dau dîm pêl-fasged merched dan18 a dan13 yn cystadlu am Gwpan Cymru yng Ngogledd Cymru ddydd Iau nesaf. Llongyfarchiadau i Catrin Thomas, Eira Hughes Lewis a Mali Emmerson ar eu llwyddiannau beicio ac i Nye a Ffion Evans a goronwyd yn Bencampwyr Cenedlaethol Tenis Bwrdd dan15 a dan13. Yn Gymnasteg dau bencampwr ysgolion Cymru dan19: Maia Griffiths ac Owain Griffiths. Llongyfarchiadau hefyd i Megan Jones, Alfie Prygodzicz, Gabe Williams, Tom Howe, Lloyd Lucas a Bailey Cutts am ennill eu capiau dan 18 Rygbi'r Undeb!

**Arholiadau ac Adroddiadau Interim-** Dylai pob disgybl Bl 7-13 fod wedi derbyn eu hadroddiadau interim ar gyfer y tymor hwn sy'n dangos cynnydd a chyflawniad eich plentyn ers mis Medi. Mae arholiadau ymarferol TGAU a Safon Uwch ar waith a dylai pob disgybl fod wedi derbyn eu hamserlenni arholiadau unigol ar gyfer yr haf. Gwiriwch y rhain yn ofalus am gywirdeb gan eu bod yn



*Adrian Masters, Golygydd Gwleidyddol ITV Cymru yn siarad â grŵp Gwleidyddiaeth BroPlasTaf*

cynnwys yr holl gofrestriadau arholiadau ar gyfer pob myfyriwr. Mae arholiadau TGAU yn dechrau ar yr 8fed o Fai gyda'r diwrnod olaf o addysgu Bl 11 ar ddydd Mawrth 7fed o Fai a Bl 12 ar ddydd Gwener 9 Fai. Byddwch yn ymwybodol bod Bl12 yn dychwelyd i'w gwersi ar ôl eu harholiadau ar ddydd Llun y 9fed o Fehefin. Mae arholiadau Bl 13 yn dechrau ar ddydd Llun y 19eg o Fai gyda'u diwrnod olaf o addysgu a seremoni ffarwelio ar ddydd Gwener 16 Mai am 1.30pm.

**Arholiadau Bl 7-9:** Cynhelir y rhain yn ystod y cyfnod 12 i 16 Mai yn ystod sesiwn y bore ar gyfer Bl 7-9, gyda Phrofion Rhifedd a Darllen Cenedlaethol yn cael eu cynnal yn yr ysgol yn ystod y cyfnod 2-13 Mehefin. Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn bresennol yn yr ysgol yn ystod y cyfnodau hyn.

**Diogelwch ar y Ffordd** – Rydym yn falch iawn bod rheoliadau dim parcio llym bellach mewn grym wrth fynedfa'r ysgol. Mae hyn wedi cynyddu safonau diogelwch yn sylweddol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu am y nifer fawr o rieni sy'n teimlo ei bod yn briodol stopio yn yr ardal hon er mwyn gollwng eu plentyn yn uniongyrchol o flaen gatiau'r ysgol. **Parciwch eich car i ffwrdd o'r ardal yma a gall eich mab / merch gerdded pellter byr i fynedfa'r ysgol**. Mae'r parcio anghyfreithlon hwn yn berygl gwirioneddol i'r nifer fawr o ddisgyblion sy'n beicio i'r ysgol ac sy'n cael eu gorfodi i wyro neu seiclo ar ganol yr heol i osgoi ceir sydd wedi'u parcio. Diolch yn fawr am eich dealltwriaeth.

**Cofrestru'r bore:** Hoffem atgoffa rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion o bwysigrwydd bod yn brydlon yn y bore. Mae cofrestru'n dechrau yn brydlon am 8.30am, ac mae'n rhan hanfodol o'r diwrnod ysgol. Mae'n amser i dderbyn gwybodaeth hanfodol, i fwynhau cefnogaeth fugeiliol gan eich tiwtor personol, ac i gymryd rhan yn y myfyrdodau wythnosol ar faterion cyfoes. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plant yn yr ysgol erbyn 8.25am er mwyn dechrau cofrestru'n brydlon am 8.30am. Gofynnir i ddisgyblion sy'n hwyr yn rheolaidd adael eu ffonau symudol yn y dderbynfa am weddill y dydd. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

**Sgïo 2025/26:** Cynhelir Noson Rhieni nos Lun, 7fed Ebrill i lansio cwrs Sgïo 2025/26. Mae lleoedd wedi'u cyfyngu i 50 (Bl 9 a hŷn) a dyddiadau'r cwrs fydd 17-23 Rhagfyr.

**Noson Rhieni Ar-lein Bl 7**: Dydd Llun 7fed o Ebrill (manylion isod). Ymunwch â'n cyfarfod ar-lein i glywed am ein prosiect dyfais un i un a fydd yn cael ei lansio eto eleni.

**Dyddiadau pwysig:**

| | |
|---|---|
| 7-11 Ebrill | Cystadleuaeth Rygbi 7 yr Urdd / URC |
| 7 Ebrill | Noson Rieni Bl 7 ar Teams @ 5.30pm: Dyfais Un i Un Ymuno yma |
| 7 Ebrill | Noson Rieni Taith Sgïo ar Teams am 6.30pm (cyfrwng Cymraeg) |
| 7-8 Ebrill | Arholiad Celf Bl 13 |
| 8-9 Ebrill | Arholiad Drama Bl 13 |
| **28 Ebrill** | **Dechrau Tymor yr Haf (wythnos 1)** |
| 1 Mai | Diwrnod Pontio Chwaraeon Bl 6 10am – 2pm; Her Mathemateg y DU Bl 8 |
| 7 Mai | Diwrnod addysgu olaf Bl 11 |
| 8 Mai | Noson Rieni Bl 7 3.15-6.30pm |
| 12-16 Mai | Arholiadau Bl 7-9 |

**I gloi**: Gan mai hwn yw'r cylchlythyr olaf y tymor hwn hoffwn ddymuno'n dda i chi dros wyliau'r Pasg a'ch atgoffa ein bod yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol ddydd Llun 28 Ebrill (w.1).



*Blwyddyn 7: Pencampwyr Cymru!*

Yn gywir

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf